**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1541
Ein cyf HIDCC/00012/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

20 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Ionawr ynglŷn â deiseb P-06-1541, Cynhyrchu Bil Dŵr Glân i Gymru ac ar gyfer Afonydd Cymru, ac am rannu nodyn manwl y deisebwyr a'r cynnig deddfwriaethol gan Achub yr Afon Wysg. Rwy'n gwerthfawrogi ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater pwysig hwn a'r cyfle i ymateb ymhellach yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Hydref.

Rwy'n cydnabod cryfder y teimlad ymhlith deisebwyr a'r cyhoedd ehangach am iechyd ein hafonydd, yn ogystal â'r brys a fynegwyd gan Achub yr Afon Wysg. Mae eu nodyn yn tynnu sylw at yr heriau parhaus sy'n wynebu afonydd Cymru, gan gynnwys yr angen am reoleiddio, gorfodi, a chynnwys cymunedol mwy effeithiol. Rwy'n cydnabod eu galwad am Fil Dŵr Glân pwrpasol a'u pryderon am gyflymder y cynnydd, effeithiolrwydd y trefniadau trwyddedu a rheoleiddio cyfredol, a phwysigrwydd deddfwriaeth glir, ddiamwys sy'n canolbwyntio ar iechyd dŵr yn unig.

Fel yr amlinellwyd yn fy ngohebiaeth flaenorol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gryfhau cyfraith amgylcheddol a gwella ansawdd dŵr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y Papur Gwyrdd yn amlinellu ein barn ar argymhellion adroddiad terfynol y Comisiwn Dŵr Annibynnol ac yn cydnabod bod dŵr yn hanfodol i bob rhan o fywyd yng Nghymru ar gyfer iechyd ein pobl a natur, llwyddiant ein heconomi a gwytnwch ein cymunedau. Mae'n adnodd gwerthfawr y mae'n rhaid ei reoli'n gynaliadwy, yn deg ac er budd y cyhoedd. Mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn ymgynghoriad cyhoeddus llawn, ac rydym yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid wrth i ni lunio ein cynigion ar gyfer diwygio dŵr.

Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), sy'n rhan o broses graffu ar hyn o bryd, yn gam allweddol yn ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Er fy mod yn nodi pryderon y deisebwyr am gwmpas ac uchelgais y Bil, mae'n cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer gosod targedau lleihau bioamrywiaeth a llygredd a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu mewn meysydd blaenoriaeth fel iechyd dŵr croyw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd yn cydnabod barn y deisebwyr am yr angen am bwerau rheoleiddio cryfach ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a'u hawgrymiadau ar gyfer mwy o gyfranogiad democrataidd a chymunedol mewn llywodraethu dŵr. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig wrth i ni barhau i adolygu a datblygu ein dull gweithredu.

Rwy'n croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gynnwys ansawdd dŵr a rheoli llifogydd fel themâu blaenoriaeth yn ei adroddiad etifeddiaeth, ac edrychaf ymlaen at ymgysylltu parhaus â'r Pwyllgor a rhanddeiliaid wrth i ni weithio i sicrhau gwelliannau ystyrlon i afonydd Cymru.

Diolch eto am eich gohebiaeth ac am dynnu sylw at y materion pwysig hyn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig